# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 4 Chwefror 2025

Amser: 09.00 - 09.36

# Remote / Private

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Paul Davies AS<br>Heledd Fychan AS<br>Jane Hutt AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | Jane Dodds AS<br>David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Matthew Richards, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd Dros Dro<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r cyfarfod

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.15pm.

**Dydd Mercher**

Rhoddodd y Llywydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newid a ganlyn:

- Cwestiynau i Gomisiwn y Senedd (~~30~~ <u>10</u> munud)

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.05pm.

Dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwyr Busnes ei bod wedi cytuno i gais am bleidlais drwy ddirprwy gan Lesley Griffiths, i'w chyflawni gan Jane Hutt, ar gyfer y cyfnod rhwng 3 Chwefror a 3 Mawrth 2025.

Dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwyr Busnes y bydd Paul Davies yn gofyn cwestiynau Arweinwyr y Pleidiau yn ystod y Cwestiynau i'r Prif Weinidog heddiw ar ran Darren Millar.

## 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes nad oes unrhyw newidiadau i amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

## 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunwyd i ychwanegu'r eitemau a ganlyn i Amserlen Busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mercher 5 Mawrth 2025 –**

- Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl fer: Hannah Blythyn AS (Delyn) (30 munud)

## 3.4 Dadl Aelodau: Dewis Cynnig ar gyfer Dadl

Trafododd y Pwyllgor Busnes y cynigion arfaethedig ar gyfer dadl. Mynegodd Heledd Fychan ei chefnogaeth i amserlennu cynnig gan Sioned Williams ar y gwrthdaro yn y Dwyrain Canol. Cytunodd y Rheolwyr Busnes drwy fwyafrif i amserlennu'r cynigion canlynol i'w trafod:

12 Chwefror

**Jenny Rathbone**

**NNDM8814**

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi:

a) er gwaethaf y digonedd o fwyd o safon a gynhyrchir gan ffermwyr Cymru, mae goruchafiaeth bwyd wedi'i brosesu'n helaeth yn ein diet yn arwain at ganlyniadau dinistriol i iechyd, cyfoeth a llesiant ein cenedl;

b) bod mynediad at fwyd fforddiadwy ac iach yn fater cyfiawnder cymdeithasol, gyda chymunedau tlotach yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan afiechydon sy'n gysylltiedig â diet;

c) bod cynhyrchiant Cymru o 20,000 tunnell o ffrwythau a llysiau y flwyddyn ond yn cyfateb i chwarter dogn o ffrwythau a llysiau bob dydd fesul person;

d) y gall ehangu cynhyrchu bwyd lleol cynaliadwy helpu i leihau milltiroedd bwyd, gwella diogelwch bwyd, a chreu swyddi gwyrdd yng Nghymru; ac

e) bod pontio i fod yn genedl fwyd gynaliadwy yn gofyn am ddull cydgysylltiedig, cydweithredol ac ataliol yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) datblygu strategaeth llywodraeth gyfannol a chydgysylltiedig i wella diet pobl;

b) hyrwyddo manteision bwyd ffres, heb ei brosesu i annog newidiadau dietegol a mynd i'r afael â goruchafiaeth bwydydd wedi'u prosesu'n helaeth;

c) defnyddio'r buddsoddiad sydd i'w groesawu mewn partneriaethau bwyd lleol i ddod â thyfwyr, arlwywyr a bwytawyr at ei gilydd i ehangu garddwriaeth yng Nghymru;

d) cyflymu'r gwaith o lunio strategaeth fwyd gymunedol o fewn y Chweched Senedd; ac

e) defnyddio pŵer caffael cyhoeddus i wella'r bwyd a weinir i ddisgyblion, cleifion a phobl sy'n byw mewn cartrefi gofal.

<u>5 Mawrth</u>

**Mark Isherwood**

**NNDM8734**

Cynnig bod y Senedd

1. Yn nodi:

a) yr angen i ddarparwyr gwasanaethau ddiwallu anghenion y gymuned fyddar;

b) bod pobl sy'n byw â cholled clyw yn wynebu anfantais difrifol o gymharu â phobl nad yw hynny'n effeithio ar eu clyw;

c) mai Iaith Arwyddion Prydain (BSL) yw'r dull cyfathrebu a ffefrir gan lawer o bobl fyddar; a

d) pryder ynghylch penderfyniad Cymwysterau Cymru i beidio â bwrw ymlaen â chymhwyster TGAU iaith arwyddion.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru:

a) i sicrhau bod y tasglu hawliau pobl anabl yn mynd ati'n benodol i nodi'r materion a'r rhwystrau sy'n effeithio ar fywydau pobl fyddar; a

b) i ymwneud yn fwy â'r gymuned fyddar i ganfod beth yw eu hanghenion.

# 4 Deddfwriaeth

## 4.1 Diweddariad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol

Trafododd y Pwyllgor Busnes y diweddariad ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol a, fel y trafodwyd yn ei gyfarfod blaenorol, nododd bod Memorandwm Atodol arall (Rhif 6) bellach wedi cael ei osod ar y Bil Dŵr (Mesurau Arbennig) yn dilyn gwelliannau a wnaed i'r Bil yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin. Gan nad yw'r amserlen ar gyfer craffu ar y Bil yn Senedd y DU yn caniatáu ar gyfer ystyried barn y Senedd ar gydsyniad ar gyfer y gwelliannau diweddaraf, roedd y Pwyllgor Busnes wedi cytuno'n flaenorol i beidio â chyfeirio'r Memorandwm Atodol (Rhif 6) ar y Bil Dŵr (Mesurau Arbennig) i bwyllgorau ar gyfer craffu, ond nododd bod pwyllgorau'n parhau i allu trafod a chyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Atodol pe baent yn dewis hynny.

**4.2 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ynghylch y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Dŵr (Mesurau Arbennig).**

Nododd y Pwyllgor Busnes y llythyr.

## 5 Pwyllgorau

**5.1 Llythyr gan Gyd-gadeiryddion Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru ynghylch Rheol Sefydlog Dros Dro 35**

Trafododd y Pwyllgor Busnes ohebiaeth gan Bwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru ynghylch newid posibl i Reol Sefydlog 35, sy'n gysylltiedig â'r Pwyllgor hwnnw, ynghylch llwon a chadarnhadau.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ysgrifennu yn ôl at Bwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru i ofyn am eglurhad ar yr union gais ac i ddychwelyd i ystyried y mater ymhellach unwaith y bydd ymateb wedi dod i law.

## 6 Gwaith Gweithdrefnol

**6.1 Ymateb gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ynghylch Rheolau Sefydlog ar gyfer y Seithfed Senedd: Categorïau o Aelodau**

Nododd y Pwyllgor Busnes ymateb gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ynghylch newidiadau posibl i'r Rheolau Sefydlog ar gyfer y Seithfed Senedd mewn perthynas â'r categoriau o Aelodau. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ddychwelyd i ystyried cynigion terfynol i ddiwygio Rheolau Sefydlog yn ddiweddarach, yng ngoleuni gwelliannau posibl eraill ac unrhyw argymhellion neu gasgliadau a wneir gan Bwyllgor Senedd y Dyfodol.

## 7 Unrhyw faterion eraill

Nododd y Llywydd ei bod wedi cael sylwadau gan sawl Aelod ynghylch y Pwyllgor Busnes yn enwebu Rhys ab Owen AS fel aelod o'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad. Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ystyried y mater a dychwelyd ato yn y cyfarfod canlynol.